Annwyl Berchennog Tŷ Newydd

Llongyfarchiadau ar brynu cartref newydd. Er mwyn eich helpu chi a'ch teulu i ymgartrefu yn eich cymuned newydd, hoffai Cyngor Bro Morgannwg roi ychydig o gyngor i chi am wasanaethau addysg yn yr ardal.

Tîm Mynediad i Ysgolion Bro Morgannwg a fydd yn rheoli'r ceisiadau ar gyfer pob ysgol gymunedol a gwirfoddol a gynorthwyir yn y Fro.

Er mwyn dod o hyd i'r ysgol feithrin, gynradd neu uwchradd sydd agosaf at eich cartref newydd, dilynwch y ddolen a nodwch eich côd post newydd:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/schools.aspx

Os hoffech wneud cais am le mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig, ewch i wefan yr ysgol a dilynwch y cyfarwyddiadau ynglŷn â derbyn disgyblion.

Bydd arweiniad newydd i'r trefniadau derbyn ar gael i rieni bob mis Hydref sy'n egluro'r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion yn ystod y flwyddyn ysgol ddilynol. Cewch weld yr arweiniad hwnnw drwy fynd i: http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/admissions/school%20admissions.aspx

Bydd y ddolen hon hefyd o gymorth i ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynglŷn â derbyn plant i ysgolion yn ystod y flwyddyn neu gyflwyno cais am le mewn ysgol heb ddilyn y broses arferol.

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â'r tîm mynediad:

01446 700111 admissions@valeofglamorgan.gov.uk

Er mwyn gallu cynllunio ar gyfer addysgu eich plant yn y dyfodol, byddem yn ddiolchgar petaech yn neilltuo eiliad neu ddwy ar gyfer ateb yr holiadur 'Ysgol Newydd' fel y cawn ddeall eich anghenion.

Dymunwn y gorau i chi yn eich cartref newydd a gobeithio y bydd eich plentyn/plant yn parhau i fwynhau eu haddysg ym Mro Morgannwg.

Yn gywir

A Brown

Anne Brown
Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion **Tîm Derbyn Plant i Ysgolion**